Dwyieithrwydd, Llythrennedd a Dysgu mewn Addysg Bellach

Bilingual Literacies for Learning in Further Education

Deiliaid grant y prosiect: Marilyn Martin-Jones, Roz Ivanič a Daniel Chandler

Amcanion

Mae llythrennedd yn adnodd hanfodol ar gyfer dysgu ar draws ystod llawn y cwricwlwm, ac yn ystod cwrs bywyd. Mae llythrennedd mewn dwy iaith yn hanfodol er mwyn cyfranogi'n llawn a dysgu'n effeithiol yng nghyd-destun addysg ddwyieithog. Ceir tystiolaeth gynyddol fod cyflawniad rhai myfyrwyr mewn Addysg Bellach (A.B.) yn cael ei danseilio gan ofynion lefel llythrennedd eu cyrsiau. Serch hynny mae ymchwil a damcaniaethau diweddar mewn Astudiaethau Llythrennedd yn awgrymu fod myfyrwyr sydd â lefel llythrennedd isel mewn lleoliad addysgol yn llythrennog iawn mewn agweddau eraill ar fywyd: yn eu gweithgareddau yn ymwneud â gwaith, y cartref, y gymuned neu hamdden.

Canolbwynt y prosiect yw defnydd a datblygiad llythrennedd dwyieithog ymhlith myfyrwyr Cymraeg eu hiaith wrth iddynt ddilyn cyrsiau A.B. Diffinnir llythrennedd yn ei ystyr ehangaf: arferion darllen ac ysgrifennu a defnyddio testun, mewn ieithoedd a moddau gwahanol a chan ddefnyddio technolegau gwahanol.

Amcanion y prosiect yw:

- Adnabod llythreneddau dwyieithog sy'n medru cysylltu rhwng bywydau bob dydd myfyrwyr, a'u dysgu mewn Addysg Bellach (h.y. 'llythreneddau ffin').
- Datblygu, gweithredu a gwerthuso rhaglen datblygiad cwricwlwm yn ymgorffori 'llythreneddau ffin', gyda golwg ar ddatblygu galluoedd llythrennedd myfyrwyr er mwyn llwyddo yn eu cyrsiau A.B..
- Cymharu profiadau A.B. ystod o fyfyrwyr dwyieithog, ar draws gwahanol feysydd cwricwlaidd, ar safleoedd a gofodau dysgu gwahanol y coleg.
- Datblygu partneriaeth ymchwil gydag ymarferwyr A.B. dwyieithog a fydd yn cefnogi datblygiad ymarfer wedi ei seilio ar dystiolaeth yn y sector A.B. Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog yng Nghymru.

Mae'r ymchwil wedi ei seilio ar bartneriaeth rhwng ymchwilwyr sydd wedi eu lleoli mewn prifysgol (mewn tair prifysgol) ac ymchwilwyr wedi eu lleoli yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, prif ddarparwr Addysg Bellach Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog Cymru. Mae'r prosiect yn ehangu ymchwil sydd eisoes ar y gweill ym mhroseict *Literacies for Learning in Further Education* (LfLFE) (Ivanič, Barton ac Edwards, 2003-2006) i gyd-destun dwyieithog yng Nghymru. Mae prosiect LfLFE hefyd wedi ei ariannu o dan Raglen Ymchwil Dysgu ac Addysgu ESRC ac mae iddo bedwar lleoliad ymchwil (dau goleg A.B. yn Lloegr a dau yn Yr Alban.) Am fanylion pellach gweler: http://www.tlrp.org/projects/further.

Arwyddocâd

Mae'r ymchwil yn cyfrannu tuag at ddatblygu dau ddimensiwn ar dystiolaeth yn seiliedig ar bolisi ac ymarfer mewn A.B. yng Nghymru.

1. Mae'n adnabod rhai o'r ffyrdd y mae llythreneddau dwyieithog yn cysylltu dysgu. O ganlyniad bydd darparwyr A.B. yn medru:

- Adnabod ac ymwneud yn fwy gweithredol gyda galluoedd llythrennedd dwyieithog anffurfiol dysgwyr, fel dull o'u galluogi i gwrdd â gofynion llythrennedd addysg ffurfiol.
- Adolygu eu gofynion o ran arferion llythrennedd ffurfiol a'u harchwilio yng ngoleuni arferion anffurfiol y dysgwyr.

2. Mae'n tynnu sylw at faterion sy'n codi o weithrediad addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yng nghyd-destun A.B. Hyd yn hyn, darpariaeth gweddol gyfyngedig a fu mewn Colegau Addysg Bellach. Mae newidiadau ar droed yn awr. Ers cyhoeddi *Iaith Pawb* yn 2003, Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer gweithrediad polisi iaith yng Nghymru, bu symudiadau tuag at ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a Dwyieithrwydd y sector ôl-16 a thuag at ehangu'r ddarpariaeth. Mae ariannu'r prosiect hwn felly yn hynod o amserol, oherwydd y gallai'r canfyddiadau gyfrannu'n uniongyrchol tuag at ddatblygiad polisi iaith yn seiliedig ar dystiolaeth yn y sector A.B.

Coleg Meirion-Dwyfor

Partneriaethau a gweithgareddau ymchwil

Mae tri aelod o staff dwyieithog A.B. yn aelodau o'r tîm ymchwil, ac maent wedi eu rhyddhau o rai dyletswyddau dysgu, i'r perwyl hwn. Maent yn ymwneud â chasglu data gyda 12 myfyriwr, mewn 3 maes cwricwlwm. Bydd 36 o fyfyrwyr yn ymwneud â'r prosiect yn gyfan gwbl.

Bydd yr ymchwil gan fwyaf yn ethnograffig ac yn ansoddol ei natur, gan gyfuno ethnograffeg gyda dadansoddi disgwrs a dadansoddi semiotig. Bydd yr ymchwilwyr sydd wedi ei lleoli yn y brifysgol yn gyfrifol am fewnbwn damcaniaethol y prosiect, rheolaeth gyffredinol yr ymchwil ac am ran helaeth y casglu data, dadansoddi data a'i drawsnewid yn allbwn defnyddiadwy. Mae'r ymchwilwyr sydd wedi eu lleoli yn y Coleg yn ymwneud yn ganolog â siapio'r ymchwil (ym mhob cam) er mwyn sicrhau ei berthnasedd i ymarfer dwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

Cynllun Amser

CAMAU A MISOEDD	GWEITHGAREDDAU YMCHWIL	ALLBWN ALLWEDDOL
Cam 1 SEFYDLU Mai – Awst 2005	• Arolwg o ofynion llythrennedd dwyieithog cyrsiau'r coleg • Casglu data am ddeilliannau dysgu 6 cwrs	• Adolygiad llenyddiaeth ar lythrennedd a dysgu mewn cyd-destunau dwyieithog • Dogfennu profiad sefydlu partneriaeth ymchwil
Cam 2 LLYTHRENDDAU Medi 2005 – Awst 2006	• Ymgymryd ag astudiaethau achos manwl gyda 36 myfyriwr gan ganolbwyntio ar eu harferion llythrennedd anffurfiol, dwyieithog • Arsylwi dosbarthiadau i adnabod galluoedd angenrheidiol a llythreneddau cysylltiedig • Dadansoddi data i adnabod 'llythreneddau ffin' a fyddai'n medru atgyfnerthu dysgu	• Canfyddiadau mapio llythrennedd dwyieithog ar draws meysydd cwricwlwm • Astudiaethau achos a fframwaith dadansoddol yn ymddangos ar gyfer 'llythrennedd ffin' dwyieithog. • Canfyddiadau cychwynnol ar 'lythreneddau ffin' dwyieithog, hunaniaeth a dysgu.
Cam 3 DATBLYGU CWRICWLWM Medi 2006 – Ebrill 2007	• Cynllunio a gweithredu rhaglen datblygu cwricwlwm gan ymgorffori llythreneddau anffurfiol myfyrwyr a'u cysylltu gydag anghenion llythrennedd y cyrsiau • Arsylwi, dadansoddi a gwerthuso'r rhaglen • Cynnal gweithdai i archwilio posibiliadau ar gyfer ail-gydestunoli'r canfyddiadau i feysydd cwricwlaidd eraill	• Deunyddiau Cwricwlaidd • Cofnod o gynllunio, gweithredu a gwerthuso rhaglen datblygu cwricwlwm • Cofnod o 'lythrennedd ffin' a'u goblygiadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm mewn A.B. • Canfyddiadau o safbwynt y profiad hwn o bartneriaeth A.B. ac A.U.

Y Tîm Ymchwil

Marilyn Martin-Jones
Prifysgol Birmingham

Roz Ivanič
Prifysgol Lancaster

Daniel Chandler
Prifysgol Cymru Aberystwyth

Buddug Griffith
Prifysgol Birmingham

Ian Rees
Pennaeth, Coleg Meirion-Dwyfor

Cysylltwch â:

Professor Marilyn Martin-Jones
School of Education
University of Birmingham
Edgbaston, Birmingham B15 2TT
Tel: +44 (0)121 414 4862
Email: m.martinjones@bham.ac.uk

Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu

Mae'r Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu (TLRP) yn cynnwys dros 30 o dimau ymchwil gyda chyfraniadau o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dechreuodd y gwaith yn 2000 a bydd yn parhau tan 2008/9.

Dysgu: Nod hollgynhwysol y TLRP yw gwella canlyniadau i ddysgwyr o bob oed mewn cyd-destunau addysgu a dysgu ledled y Deyrnas Unedig.

Canlyniadau: Mae'r TLRP yn astudio amrediad eang o ganlyniadau dysgu, yn cynnwys caffael sgil, dealltwriaeth, gwybodaeth a chymwysterau, a datblygiad agweddau, gwerthoedd a hunaniaethau sy'n berthnasol i gymdeithas sy'n dysgu.

Cwrs bywyd: Mae'r TLRP yn cefnogi prosiectau a gweithgareddau cysylltiedig ar gyfer sawl oedran a cham mewn addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes.

Cyfoethogi: Mae'r TLRP wedi ymrwymo i sicrhau cyfranogiad y defnyddwyr ym mhob cam o'r ymchwil. Mae'n hyrwyddo ymchwil ar draws disgyblaethau, methodolegau a sectorau, ac yn cefnogi cydweithrediad cenedlaethol a rhyngwladol.

Arbenigedd: Mae'r TLRP yn gweithio er mwyn hybu gallu pob math o ymchwil ar addysgu a dysgu, a pholisïau ac arfer yn deillio o ymchwil.

Gwelliant: Mae'r TLRP yn datblygu'r sylfaen wybodaeth ar addysgu a dysgu ac ar bolisi ac arfer yn y Deyrnas Unedig.

Tîm Cyfarwyddwyr y TLRP
Athro Andrew Pollard ▮ *Llundain*
Athro Mary James ▮ *Llundain*
Athro Alan Brown ▮ *Warwick*
John Siraj-Blatchford ▮ *Caergrawnt*
Athro Miriam David ▮ *London*
Athro Stephen Baron ▮ *Strathclyde*

Swyddfa'r Rhaglen TLRP
Sarah Douglas ▮ *sarah.douglas@ioe.ac.uk*
Bernadette Ryder ▮ *b.ryder@ioe.ac.uk*
James O'Toole ▮ *j.o'toole@ioe.ac.uk*

TLRP
Institute of Education
20 Bedford Way
London WC1H 0AL UK
Rhif Ffôn +44 (0)20 7911 5577